# EDT2 16-04 (p7)

# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Dyddiad:** 1 Tachwedd 2004
**Lleoliad:** Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Awdurdod Datblygu Cymru: Strategaeth Eiddo ar Gyfer Cyflogaeth yng Nghymru (2004-2008)

## Diben

1. I'r Pwyllgor nodi Strategaeth Eiddo ar Gyfer Cyflogaeth Awdurdod Datblygu Cymru (2004-2008) (yn gysylltiedig yn Atodiad 1).

## Gweithredu

2. Dim i'r Pwyllgor. Papur er gwybodaeth yn unig yw hwn. Ar 30 Medi 2004 fe gymeradwywyd Strategaeth Eiddo y WDA gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

## Cefndir

3. Hysbysais y Cyngor ar 22 Hydref 2003 bod adolygiad strategol o'r ddarpariaeth o safleoedd ac adeiladau yn cael ei gynnal. Ymgymerwyd â'r Astudiaeth Tir ac Adeiladau Cyflogaeth Cymru gan Price Waterhouse Coopers a King Sturge, ac yn yr astudiaeth cafwyd asesiad o'r sefyllfa ynglyn ag argaeledd safleoedd ac adeiladau yng Nghymru i gyfateb â gofynion cyflogaeth yn y dyfodol.
4. O ganlyniad i'r astudiaeth hon, mae Awdurdod Datblygu Cymru, mewn cydweithrediad agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi datblygu strategaeth ar gyfer safleoedd ac adeiladau cyflogaeth ar draws Cymru.
5. Mae 'Y Strategaeth Eiddo ar gyfer Cyflogaeth yng Nghymru (2004-2008)' yn amcanu at ddarparu fframwaith fydd yn sicrhau bod Cymru'n gallu darparu safleoedd ac adeiladau o safon uchel ar gyfer cyflogaeth yn y lleoliadau cywir ar gyfer buddsoddwyr mewnol a busnesau cynhenid.
6. Mae'r Strategaeth yn gwbl gydnaws â Chynllun Gofodol Cymru sy'n dod i'r amlwg a pholisïau ehangach y Cynulliad. Ymgysylltir ag Awdurdodau lleol a'r Fforymau Economaidd Rhanbarthol i sicrhau bod y fframwaith yn gyson â'r strategaethau economaidd rhanbarthol a strategaethau adfywio lleol.
7. Bydd y gwaith o nodi a gwerthuso safleoedd ac adeiladau sy'n 'cystadlu' yn cael ei ddatblygu drwy grwp llywio. Bydd y rhwydwaith o leoliadau a 'chystadleuwyr' yn cael eu blaenoriaethu yn erbyn meini prawf amrywiol. Bydd pob safle sy'n 'cystadlu' yn cael ei nodi drwy'r Strategaeth

Eiddo, a bydd yn ddarostyngedig i arfarniad cynaladwyedd ac arfarniad amgylcheddol. Mae’r grwp llywio yn cynnwys swyddogion o’r WDA, Price Waterhouse Coopers, King Sturge a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y rhestr o safleoedd sy’n ‘cystadlu’ yn cael ei datblygu i raglen flaenoriaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, a bydd yn cael ei chyflwyno i mi i’w chymeradwyo.

## Cydymffurfiaeth

8. Caiff y WDA ei rymuso gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y’i diwygiwyd) ("y Ddeddf"). Mae Adran 1 (7)(h) y Ddeddf yn darparu’r pwer i’r Asiantaeth i gaffael tir, gweithiau, peiriannau ac offer ac eiddo arall. Mae Adran 1 (7)(k) y Ddeddf yn darparu’r pwer i’r Asiantaeth i drefnu bod tir, gweithiau, peiriannau ac offer ac eiddo arall ar gael i’w defnyddio gan bersonau eraill.

## Goblygiadau Ariannol

9. Mae goblygiadau’r Strategaeth Eiddo yn cynnwys paratoi Strategaeth Ariannu, a gaiff ei chyflwyno i mi ar fyr o dro ar gyfer ei chymeradwyo. Nid oes goblygiadau ariannol pellach i’r Cynulliad o ganlyniad i’r papur hwn.

**Andrew Davies**
**Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**Pwynt cyswllt: Vanessa Phillips, Is-adran Polisi Economaidd 1, est:3549**